

**Teitl:- Cyfrifoldebau Statudol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn perthynas â Chwynion yr Heddlu**

**Adroddiad gan: Prif Weithredwr**

**Dyddiad: Adrodd ar y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024**

## **1. CYFLWYNIAD**

1.1 Paratowyd yr adroddiad hwn i fodloni gofynion Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygiad) 2021

1.2 Yng Ngogledd Cymru, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi rhoi Rhybudd i'r Prif Gwnstabl bod **Model 1** yn cael ei fabwysiadu yn unol â pharagraff 13A o Ddeddf Plismona a Throsedd 2017. Gan fod Model 1 wedi'i fabwysiadu ers 2020, mae'r Prif Gwnstabl fel yr Awdurdod Priodol yn gyfrifol am holl anfodlonrwydd, cwynion ac ymddygiad sy'n ymwneud â phlisma gweithredol, swyddogion a staff o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth. Mae'r ddyletswydd hon yn cynnwys logio, cofnodi, ymchwilio a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i achwynwyr am gynnydd a phenderfyniadau sy'n ymwneud â chwynion.

1.3 Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd dair prif ddyletswydd mewn perthynas â chwynion yr heddlu. Y rhain yw:

**(1)** Awdurdod Priodol i ystyried cwynion am y Prif Gwnstabl,

**(2)** Dyletswydd i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif wrth ddarparu proses gwyno effeithiol ac effeithlon, a

**(3)** Chorff Adolygu Perthnasol o rai o gwynion yr heddlu.

1.4 Bydd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r adnoddau a'r prosesau a roddwyd ar waith i gyflawni'r dyletswyddau hyn a bydd yn rhoi sicrwydd bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyflawni ei ddyletswyddau mewn perthynas â chwynion yr heddlu.

1.5 Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion unrhyw gŵyn neu adolygiad penodol y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ymdrin â hwy.

## **2. DEDDFWRIAETH**

2.1 Deddf Diwygio'r Heddlu 2002; Atodlen 3

2.2 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, Adran 1 paragraff 8 (ca) "arfer swyddogaethau'r prif gwnstabl o dan Ran 2 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 mewn perthynas ag ymdrin â chwynion"

- 2.3 Mae Deddf Plismona a Throsedd 2017 yn cynnwys darpariaethau i ddiwygio Rhan 2 ac Atodlen 3 i Ddeddf 2002.

### **3. DYLETSWYDDAU STATUDOL**

#### **3.1 Awdurdod Priodol i ystyried cwynion am y Prif Gwnstabl,**

- 3.1.1 Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw'r Awdurdod Priodol ar gyfer cwynion am y Prif Gwnstabl. Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod riportio hwn.

- 3.1.2 Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi dirprwyo'r ddyletswydd hon i'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae hyn er mwyn sicrhau cadernid bod y Swyddog Gweithredol yn rheoli'r gwaith ar y cyd â'r ddau swyddog.

- 3.1.3 Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yw'r Corff Adolygu Perthnasol ar gyfer y cwynion hyn.

#### **3.2 Dyletswydd i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif wrth ddarparu proses gwyno effeithiol ac effeithlon.**

- 3.2.1 Y Prif Gwnstabl yw'r Awdurdod Priodol ar gyfer pob cwyn a wneir am swyddogion, staff a gwasanaethau o dan ei gyfarwyddyd a'i reolaeth. Mae'r ddyletswydd hon wedi'i dirprwyo i'r Dirprwy Brif Gwnstabl ac yn cael ei chyflawni gan Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu.

- 3.2.2 Gan fod gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddyletswydd i sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl system gwynion yr heddlu effeithiol ac effeithlon mewn lle, mae'r gwaith craffu ar hyn yn cael ei wneud yn y Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol (PSSB) a gadeirir gan y Prif Weithredwr ar hyn o bryd ac a fynychir, ymhlith eraill, gan y Dirprwy Brif Gwnstabl a Phennaeth Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu.

- 3.2.3 Ceir adroddiad llawn ar graffu cwynion SCTHh yn [Rhan 2 isod](#).

- 3.2.4 Cynhelir craffu ymhellach gan SAYH ac arolygon wedi eu hamserlenni gan AHEF. Mae adroddiadau ystadegol o'u gwaith craffu a'u canfyddiadau ar gael ar eu gwefannau priodol.

- 3.2.5 Caiff ffeiliau cwynion eu hap samplo gan staff y Comisiynydd a chaiff unrhyw feysydd sy'n peri pryder eu riportio i Gangen Gwasanaethau Cudd yr Heddlu (PSSB) ac yn dibynnu ar ddifrifoldeb byddai'n cael ei riportio i'r Bwrdd Gweithredol Strategol. Y Bwrdd Gweithredol Strategol yw'r fforwm lle mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif dros gyflawni ei dyletswyddau. Mae'r holl faterion a nodwyd o hap samplo ffeiliau cwynion wedi'u datrys heb fod angen unrhyw atgyfeiriadau.

- 3.2.6 Mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl, mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd broses mewn lle i weithredu anfodlonrwydd a chwynion a dderbynnir gan ei swyddfa. Caiff unrhyw anfodlonrwydd neu gwynion a dderbynnir sy'n ymwneud â phlismona gweithredol eu cyfeirio at yr Adran Safonau Proffesiynol i'w hasesu, mae'r rhain naill ai'n cael eu cofnodi fel

chwynion ffurfiol neu'n cael eu cyfeirio at Uned Adfer Rheolaeth yr Heddlu (MRU) i adennill y gwasanaeth. Mae'r Adran Safonau Proffesiynol yn craffu ar yr MRU ac yn ei dro adroddir ar berfformiad i PSSB y Comisiynydd.

- 3.2.7 Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl, nid Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, yw chwynion am natur blismona weithredol.

### **3.3 Y Corff Adolygu Perthnasol am rai o gwynion yr heddlu.**

- 3.3.1 Gwnaeth Deddf Plismona a Throsedd 2017 nifer o newidiadau yn y ffordd y mae'r Heddlu a'r Chomisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymdrin â chwynion. Mae'r newidiadau wedi cryfhau rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn y broses.

- 3.3.2 Mae'n cyflwyno dyletswyddau newydd sy'n orfodol a hefyd yn caniatáu i'r Comisiynydd ddewis ymgymryd â nifer o swyddogaethau sy'n gyfrifoldeb i'r Prif Gwnstabl ar hyn o bryd.

- 3.3.3 Mae'r Ddeddf yn darparu dewis o dri model y gall y Comisiynydd ddewis eu mabwysiadu. Yng Ngogledd Cymru cadarnhaodd y Comisiynydd y bydd yn mabwysiadu Model 1 yn unig.

- 3.3.4 Felly, o 1 Chwefror 2020, daeth yr IOPC a'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn Gyrff Adolygu Perthnasol i ymdrin ag adolygiadau sy'n ymwneud â chwynion a gofnodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i fod yn gyfrifol am gofnodi, ac ymchwilio i gwynion ac am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i achwynwyr.

- 3.3.5 Yr IOPC (Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu) yw'r corff adolygu perthnasol -

i. os mai'r awdurdod priodol yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

ii. os yw'r gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad uwch swyddog (swyddog sydd â rheng uwch na phrif uwch-arolygydd)

iii. os nad yw'r awdurdod priodol yn gallu bodloni ei hun, o'r gŵyn yn unig, na fyddai'r ymddygiad y chwynir amdano (pe bai'n cael ei brofi) yn cyfiawnhau dwyn achos troseddol neu ddisgyblu neu na fyddai'n golygu torri hawliau unigolyn o dan Erthygl 2 neu 3 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

iv. os yw'r gŵyn wedi'i chyfeirio, neu y mae'n rhaid ei chyfeirio, at yr IOPC

v. os yw'r IOPC yn trin y gŵyn fel un sydd wedi'i chyfeirio (a elwir hefyd yn 'bŵer menter')

vi. mae'r gŵyn yn deillio o'r un digwyddiad â chŵyn sy'n dod o fewn ii- v

vii. Os ydy unrhyw ran o'r gŵyn yn disgyn o fewn ii-vi

- 3.3.6 Mewn unrhyw achos arall nad yw wedi ei restru uchod, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ydy'r Corff Adolygu Perthnasol.
- 3.3.7 Mae'r ddyletswydd hon wedi'i dirprwyo i'r Prif Weithredwr, mae penderfyniad ffurfiol wedi'i wneud a'i gyhoeddi. Mae'r Llawlyfr Llywodraethu wedi'i ddiweddarau gyda'r ddirprwyaeth hon.
- 3.3.8 Er mwyn sicrhau cadernid, mae'r Swyddog Gweithredol yn rheoli holl gwynion ac adolygiadau'r heddlu ar y cyd â'r Prif Weithredwr.

#### **4. ADOLYGIADAU AR GONTRACT ALLANOL**

- 4.1 Mae Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, Gwent a Dyfed Powys yn trefnu Adolygiadau i sefydliad annibynnol o'r enw "Sancus".
- 4.2 Mae rhoi'r gwaith ar gontract allanol nid yn unig yr opsiwn mwyaf hyfyw yn ariannol, ond mae hefyd yn rhoi rhagolwg cwbl annibynnol i'r achos.
- 4.3 Rhoddir ein Hysbysiad Preifatrwydd i bob unigolyn sy'n ymwneud â chwynion i'w hysbysu bod yr Adolygiadau'n cael eu rhoi ar gontract allanol i sefydliad annibynnol, mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn hefyd ar gael ar ein gwefan.

#### **5. ADOLYGIAD 2023/2024**

- 5.1 Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 derbyniodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyfanswm o 34 o geisiadau i adolygu canlyniad cwynion yr heddlu.
- 5.2 Mae'r rheoliadau newydd sy'n ymwneud â chwynion yr heddlu ond yn rhoi un elfen i'r Corff Adolygu Perthnasol ei hystyried, sef a oedd canlyniad cwyn yr heddlu yn rhesymol ac yn gymesur.
- 5.3 Os yw canlyniad yr Adolygiad yn barnu bod y canlyniad a ddarparwyd gan yr Heddlu yn rhesymol ac yn gymesur, ni fydd yr Adolygiad yn cael ei gadarnhau. Os oes unrhyw elfen o'r Adolygiad yr ystyrir nad yw'n rhesymol neu'n gymesur, caiff yr Adolygiad ei gadarnhau.
- 5.4 O'r 34 Adolygiad hynny, aseswyd bod 4 yn Annilys, cadarnhawyd 4 Adolygiad ac ni chadarnhawyd 26 ohonynt. Nid oes unrhyw achosion heb eu bodloni.

#### **6. CYHOEDDI**

- 6.1 Yn unol â Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2021 bydd yr wybodaeth a'r adroddiad hwn yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

## Rhan 2 - Craffu Cwynion

### Cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024

#### Y Weithdrefn

Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh) broses sefydledig ar gyfer adolygu a chraffu cwynion yn erbyn yr heddlu.

Mae Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol (PSSB) wedi bod ar waith ers 2015 gyda Chylch Gorchwyl ffurfiol. Cafodd y Cylch Gorchwyl ei ddiweddarau yn 2022 er mwyn adlewyrchu'r gofynion statudol newydd. [Gweler Atodiad 1 isod.](#)

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob 3 mis, a chadeirir y cyfarfodydd gan Brif Weithredwr SCHTh. Ymysg y rhai sy'n mynd iddo mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl a Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol.

Mae craffu cwynion a ymgwymerir gan SCHTh yn cynnwys dadansoddi a thrafod ynghylch cwynion gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl a Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol. Mae dadansoddi yn cynnwys adolygu niferoedd achosion, y mathau o gwynion, yr amser a gymerir i ymdrin â nhw, achosion a gyfeirir at IOPC ac unrhyw faterion eraill o bwys. Codir trafodaeth bellach o ran materion a all fod yn arwyddocaol gan gynnwys pwysigrwydd cenedlaethol/lleol, diddordeb cyhoeddus ac yn y wasg ac effaith ar draws cymunedau.

#### Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol 2023/2024

- Cynhaliwyd cyfarfodydd y Bwrdd ar:
  - 18 Mai 2023
  - 22 Medi 2023
  - 20 Rhagfyr 2023
  - 11 Mawrth 2024

#### Cwynion 2023/2024

Mae'r nifer o gwynion yn erbyn Heddlu Gogledd Cymru yn llai eto na'r cyfartaledd cenedlaethol a thipyn yn llai na chyfartaleddau'r 'Heddlu Tebycaf'. Serch hynny, mae cynnydd wedi bod yn y nifer o gwynion ymddygiad o gymharu â'r flwyddyn 2022/23. <sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> MSF = Most Similar Force | SPLY = Same Period Last Year

### Complaint cases logged

	Force	SPLY	MSF Average	National
Complaint cases logged	599	491	911	85,458
Complaint cases logged per 1,000 employees	194	161	270	338

#### Section D1.1: Complaint cases finalised outside of Schedule 3 - timeliness

Average number of working days to finalise complaint cases

Force	SPLY	MSF Average	National
18	15	42	20

#### Section D1.2: Complaint cases finalised under Schedule 3 - timeliness

Average number of working days to finalise complaint cases

	Force	SPLY	MSF Average	National
Under Schedule 3 (inc suspension)	101	86	172	140
Under Schedule 3 (not inc suspension)	96	82	158	133

Roedd y cynnydd bychan mewn amser i'w ddisgwyl oherwydd y galw mawr am wrandawiadau yn ystod y flwyddyn diwethaf. Mae staff ychwanegol ar gytundeb dros dro wedi'u recriwtio er mwyn cynorthwyo gwaith yr Adran Safonau Proffesiynol.

Mae'r canran o adolygiadau a dderbyniwyd yn erbyn y nifer o gwynion wedi aros yr un fath ar 25%, er gwaethaf y cynnydd yn y nifer o gwynion a dderbyniwyd. Fel y llynedd mae'r ffigwr o 25% ychydig dros y cyfartaledd cenedlaethol ac o dan gyfartaleddau'r Heddlu Tebycaf<sup>1</sup>. Ar ben hynny, mae'r nifer adolygiadau presennol yn isel. Mae amseroldeb ymdrin ag adolygiad gan y Corff Plismona Lleol yn gynt na'r flwyddyn flaenorol ac yn aros yn gynt na'r Heddlu Tebycaf a'r cyfartaleddau cenedlaethol.

#### Section C1: Reviews received

	Complaint cases finalised under Schedule 3	Reviews received	Reviews received as proportion of complaint cases finalised under Schedule 3	Number LPB reviews received - investigation	Number LPB reviews received - non-investigation	Number IOPC reviews received - investigation	Number IOPC reviews received - non-investigation
Force	279	71	25 %	0	32	5	34
SPLY	221	55	25 %	1	25	2	27
MSF Average	337	85	26 %	4	55	9	19
National	31,182	6,411	21 %	430	3,845	890	1,246

#### Section C2: Reviews timeliness

	Force	SPLY	MSF Average	National
Average number of working days to complete Local Policing Body reviews	12	18	49	50
Average number of working days to complete IOPC reviews	121	128	118	136

### Trafodaethau allweddol o'r flwyddyn

- Mae amseroldeb trin cwynion yn parhau i fod yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol ac un yr Heddlu Tebycaf. Priodolir hyn i brosesau'r ASP a rheolaeth barhaus a weithredir gan Reolwr Cwynion Heddlu Gogledd Cymru.

- Mae'r ASP yn parhau i adolygu achosion o gam-drin domestig gan yr heddlu er mwyn sicrhau ymchwiliad agored a thryloyw.
- Ymgwymerwyd â gwaith helaeth er mwyn sicrhau bod achosion yn amlygu problemau Trais yn Erbyn Merched a Genethod a Cham-drin Domestig gan yr Heddlu yn gywir. Gwnaiff yr ymarfer hwn sicrhau dibynadwyedd data yn y dyfodol o ran y problemau uchod.
- Eleni gwelwyd cynnydd bach yn yr amser a gymerwyd i ddatrys cwynion, ond mae'r llinellau amser o hyd yn unol â'r heddluoedd mwyaf tebyg a'r cyfartaledd cenedlaethol. Roedd y cynnydd mewn amser i'w ddisgwyl oherwydd y cynnydd mewn gwrandawriadau.
- Monitro argymhellion yn disgyn o nifer o adroddiadau Cenedlaethol yn arbennig Fetio, Camymddwyn a Chasineb at Ferched, Adroddiad Dadansoddiadol y Farwnes Casey a'r Adroddiad Terfynol.
- Glanhawyd data fel y mandadwyd gan Adroddiad Fetio, Camymddwyn a Chasineb at Ferched AHEF. Adolygwyd 18,000 llinell o ddata ar weithwyr Heddlu Gogledd Cymru.
- Cytunwyd i'r Gadair (Prif Swyddog CHTH) i ddiweddarau Aelodau o'r Panel Heddlu a Throsedd ar y themâu craffu ASP.
- Yn dilyn trafodaeth gyda'r IOPC, mae gwelliannau wedi cael eu gwneud i lythyron i achwynwyr ar sut y cwblhawyd cwyn, yn enwedig mewn achosion lle nad oes gweithredu pellach. Gall hyn gynnwys ymddiheuriad, neu eglurhad am ddysgu sefydliadol. Mae'r Heddlu nawr yn darparu eglurhad mwy manwl am yr hyn sydd wedi cael ei wneud gyda'r achwynwr er mwyn cael dealltwriaeth well.
- Rhoddir cefnogaeth ychwanegol i blismona lleol i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar a datrysiaid yn ogystal â datrys cwynion parhaus. Mae hyn yn sicrhau delio â materion yn drylwyr ar y dechrau ac yn lleihau'r tebygolrwydd o gwynion pellach.
- Cynnydd mewn staffio yn yr Adran Safonau Proffesiynol ar draws y flwyddyn.
- Gofyn am gyngor cyfreithiol ar y broses rheoli perfformiad ar gyfer y rhai hynny sy'n methu'r fetio am yr eildro ac felly'n methu cyflawni eu rôl. Mae'r heddlu angen defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i sicrhau mai dim ond pobl addas all aros yn y sefydliad.
- Argymhellion AHEF o'r adroddiad Fetio, Camymddwyn a Chasineb at Ferched. 43 argymhelliad i gyd ar gyfer heddluoedd, y Coleg Plismona a'r Swyddfa Gartref. Angen diweddariad PND. Rhoddwyd diweddariadau ar gynnydd yn erbyn pob argymhelliad.

- Mae argymhellion ar sut i ddelio â Cham-drin Domestig gan yr Heddlu (PPDA) nawr wedi dod yn arfer safonol. Mae bwrdd craffu ble mae achosion yn cael eu hadolygu ac mae hyn yn cael ei gefnogi gan wasanaeth Adfocatiaeth Trais Domestig Annibynnol (mewn cydsyniad â thrin data).
- Prif feysydd cwynion: Mae llawer yn ymwneud â chyflwyno gwasanaeth - "diweddariad cysylltiadau a gweithrediadau". I'w ddilyn gan "bwerau, polisi a gweithdrefn" i'w ddilyn gan "ymddygiad unigol - iaith, agwedd a diffyg amhleidioldeb".
- Rheoliadau Newydd i ddod i rym ym Mai 2024
- Data cwynion wedi cael eu trafod gyda IOPC. Adborth positif wedi ei roi am berfformiad cyfredol Heddlu Gogledd Cymru.
- Mae dysgu o gwmpas cwynion wedi cael ei weithredu yn effeithiol yn ASP ac yn yr Heddlu yn gyffredinol felly nid oes mwy o ddysgu i'w roi mewn lle.
- Mae ymgysylltu'n parhau o ASP mewn hyfforddiant staff. Mae effaith positif o'n hardaloedd lleol yn nhermau ymateb yn ôl i ymchwiliadau sydd allan ar gyfer R&P. ASP wedi rhoi mewnbwn i'r Uwch Dîm Rheoli Plismona Lleol i ddarparu adborth cadarnhaol a phwysleisio meysydd a allai fod yn fwy effeithiol.
- Mae'r galw am fetio wedi bod yn her yn ystod Ymgyrch Uplift ac wedi achosi ôl-groniad (unigolion yn disgwyl cliriad fetio). Mae recriwtio wedi bod yn yr Adran Fetio a hyfforddiant staff. Pan gyrhaeddodd y tîm gapasiti llawn (h.y. dim swyddi gwag a staff wedi eu hyfforddi'n llawn) llwyddwyd i leihau ôl-groniad y gwaith. ASP nawr yn rheoli gofynion fetio yn ystod cyfnodau o fwy o recriwtio er mwyn sicrhau bod anghenion busnes i gyd yn cael eu cwrdd.
- Mae ASP wedi bod yn gwneud mwy o waith Prevent - h.y. codi ymwybyddiaeth a rhannu gwybodaeth i helpu staff i fod yn ymwybodol o'r safonau ymddygiad sydd i'w disgwyl. Maent hefyd wedi defnyddio deunydd y Coleg Plismona ar gyfer eu hymgyrchoedd o gwmpas materion fel casineb at ferched, aflonyddu rhywiol a chamymddwyn. Y bwriad ydy annog adlewyrchu ar ymddygiad ac i roi hyder i bobl ddod ymlaen a riportio pan mae angen iddynt, os ydynt yn teimlo bod ymddygiad yn cael ei wadu neu ei ddiystyru.
- Hap samplo gan SCHTh o ffeiliau cwynion a gynhaliwyd bob mis calendr drwy'r flwyddyn.



## Gwybodaeth gan ASP

<b>Gwybodaeth Fanwl</b>	<b>Diweddariad 2023/24</b>
Sut mae'r heddlu'n mesur boddhad achwynwyr	Nid yw'r Heddlu yn cynnal arolygon ffurfiol yng nghyswllt boddhad achwynwr, serch hynny mae'r nifer o adolygiadau yn cael eu monitro i wella delio â chwynion. Cofnodir diolchiadau gan y cyhoedd a'u rhannu gyda'r unigolion neu feysydd o dan sylw i feithrin balchder am waith wedi ei wneud yn dda. Mae perfformiad mewn perthynas ag amser a dysgu yn cael ei reoli drwy Fyrddau Strategol gydag Uwch Reolwyr.
Gweithredu argymhellion gan SAYH a/neu HMICFRS o ran trin cwynion	Mae argymhellion i'r ASP am drin cwynion yn cael eu monitro drwy gyfarfod Tîm Uwch Reoli Strategol yr ASP a'r bobl hynny gydag effaith Heddlu drwy'r Bwrdd Cynllunio Strategol a Dysgu Sefydliadol (SPOLB). Mae pob argymhelliad bellach yn cael eu casglu gan Swyddog Atal ASP a'u monitro i'w cwblhau. Mae yna hefyd sgwrs barhaus hefyd gyda UDRH SAYH a Swyddog Goruchwyllo SAYH Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd chwarterol a mabwysiadu arfer gorau gan fwletinau SAYH neu'r Swyddfa Gartref.
Gosod crynodeb o unrhyw fecanweithiau a roddwyd mewn lle er mwyn nodi a gweithredu ar themâu neu batrymau mewn cwynion	Mae data cwynion yn cael ei fwydo yn ôl i nifer o Fyrddau Strategol gydag Uwch Reolwyr. Gyda'r strwythurau hyn mewn lle ac adolygiad rheolaidd o ddata cwynion, nodir themâu a bwydir nhw'n ôl drwy'r strwythur llywodraethu perthnasol er mwyn sicrhau gwelliant. Os ydy problemau ehangach yn dod yn amlwg, codir y rhain drwy SPOLB. Mae unrhyw dueddiadau neu ddysgu yn cael eu hymgorffori i ddiwyddiadau hyfforddi gan staff ASP i gyd-weithwyr ar draws ystod eang o rolau yn cynnwys myfyrwyr a goruchwylwyr.

<p>Crynodeb o systemau mewn lle er mwyn monitro a gwella cyflawniad yn amseroldeb trin cwynion</p>	<p>Mae data SAYH a chwynion mewnol yn caniatáu Rheolwr Cwynion yr ASP i fonitro amseroldeb cwblhau cwynion. Mae hyn yn cael ei fonitro drwy Fyrddau Strategol ym mhresenoldeb Uwch Reolwyr. Mae ymrwymiad gan y Rheolwr Cwynion i gyflwyno gweithdai parhaus a sesiynau trin cwynion ledled yr Heddlu. Mae amseroldeb trin cwynion yn Heddlu Gogledd Cymru yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol a chyfartaledd yr heddlu tebycaf ac mae prosesau yn cael eu hadolygu yn rheolaidd yn erbyn arfer da i sicrhau bod perfformiad yn gwella ble bynnag bo'n bosib.</p>
<p>Mae'r nifer o gyfathrebu ysgrifenedig a ryddhawyd gan yr heddlu o dan reoliad 13 Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 lle nad yw ymchwiliad wedi'i gwblhau o fewn "cyfnod perthnasol".</p>	<p>6</p>
<p>Mecanweithiau sicrwydd ansawdd mewn lle er mwyn monitro a gwella ansawdd ei ymatebion i gwynion.</p>	<p>Drwy ddefnyddio SAYH a data ansoddol mewnol, gall y Rheolwr Cwynion nodi unrhyw feysydd lle mae angen i wella proses neu fabwysiadu arfer da i wella cyflenwi gwasanaeth. Gall Dadansoddwr yr ASP fynd at wraidd y mater mewn unrhyw faes lle canfyddir amserlenni cynyddol neu nifer cynyddol o gwynion. Gallent, gyda rhwyddineb cymharol, ddeall unrhyw bryderon. Gall hyn yn ei dro gael ei fwydo'n ôl i'r maes perthnasol. Mae achosion hefyd o dan oruchwyliaeth uniongyrchol naill ai Ditectif Arolygydd yr ASP neu'r Rheolwr Cwynion ar sail asesu canlyniad / Bwrdd Adolygiad Perthnasol.</p>

## Atodiad 1

### **Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

#### **Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol (PSSB)**

Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd fydd y fforwm craffu ar gyfer holl swyddogaethau Adran Safonau Proffesiynol yr Heddlu.

#### **1. Cylch Gorchwyl (Diwygiwyd Mawrth 2022)**

Bydd y Bwrdd Craffu Safonau Proffesiynol yn:

a. Monitro a chraffu ar y modd y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn ymdrin â chwynion a honiadau o gamymddygiad er mwyn bodloni ei hun bod y trefniadau a'r prosesau sydd yn eu lle yn briodol ac yn effeithiol. Ysbrydolir craffu gan strategaeth reoli'r Adran Gwasanaethau Proffesiynol a'r ddogfen ddadansoddi a baratoir yn benodol ar gyfer y cyfarfod chwarterol. Mae hyn yn cynnwys:

- Trosolwg o gwynion, camymddygiad a phroblemau cyflawni ledled yr Heddlu
- Perfformiad yn llinellau amser trin cwynion
- Data gwrthlygredd (i gynnwys data ar gysylltiadau adroddadwy)
- Gwaharddiadau / cyfyngiadau
- Y nifer o negeseuon ysgrifenedig a ryddhawyd gan yr heddlu o dan reoliad 13 Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 lle nad yw ymchwiliad wedi'i gwblhau o fewn "cyfnod perthnasol"
- Achosion o ddiddordeb penodol
- Materion a gyfeiriwyd atynt i'r IOPC
- Gwybodaeth bellach sy'n ateb gofynion Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) (Diwygiedig) 2021 (**Atodiad A**).

b. Monitro a chraffu fod gan yr Heddlu fecanweithiau mewn lle er mwyn nodi problemau a gweithredu'n brydlon os nodir problemau. Gwnaiff y PSSB sicrhau bod:-

- mecanweithiau mewn lle er mwyn nodi a gweithredu ar themâu neu batrymau mewn cwynion
- yr Heddlu'n mesur boddhad achwynwyr
- systemau mewn lle er mwyn monitro a gwella cyflawniad yn amseroldeb trin cwynion
- mecanweithiau sicrwydd ansawdd mewn lle er mwyn monitro a gwella ansawdd ei ymatebion i gwynion

- c. Monitro a chraffu'r diweddariadau cynnydd ar weithredu argymhellion perthnasol a wneir gan:-
- SAYH a/neu HMICFRS o ran trin cwynion, neu eglurhad os na dderbyniwyd argymhellion
  - yr awdurdod priodol neu'r corff plismona lleol o ran trin cwynion i gynnwys argymhellion, dysgu sefydliadol ac unigol
- d. Ystyried cydraddoldeb a materion hawliau dynol sy'n berthnasol i fusnes y Bwrdd.
- e. Sicrhau fod craffu a throsolwg priodol a pherthnasol o bolisiâu, gweithdrefnau a strategaethau mewnol ac allanol yn cael eu cadw. Mae hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda statud, rheoliad a phenderfyniadau a wneir gan y Bwrdd.
- f. Ystyried unrhyw broblemau neu faterion sy'n codi o Hap Samplu Cwynion.

## **2. Amllder Cyfarfodydd**

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, unwaith bob tri mis. Gellir cael cyfarfodydd ychwanegol os ydy'r Comisiynydd a'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn cytuno bod busnes brys i'w ymdrin ag e.

## **3. Aelodaeth**

Bydd aelodau'r Bwrdd yn cynnwys:-

- Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a/neu'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r dirprwy enwebedig <sup>2</sup>
- Y Dirprwy Brif Gwnstabl
- Pennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol
- Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (SCHTh)
- Rheolwr Swyddfa Adran Safonau Proffesiynol
- Swyddog SCHTh sy'n gyfrifol am Adolygiadau Cwynion
- Swyddog Craffu a Pholisi SCHTh (gweinyddu a chofnodion)

Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wahodd swyddogion a staff un ai o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu'r Heddlu i roi cyngor proffesiynol i'r Bwrdd.

---

<sup>2</sup> O fis Tachwedd 2021 bydd Prif Swyddog Gweithredol SCHTh yn cadeirio'r Bwrdd. Wedi hyn, bydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r CHTh a'r DCHTh o fewn cyfarfod nesaf y Bwrdd Rheoli SCHTh.

#### **4. Cynnal Cofnodion**

Bydd Swyddog Polisi SCHTh yn gyfrifol am baratoi'r agenda ar gyfer y Bwrdd ac am gynnal cofnodion sy'n berthnasol i'r cyfarfodydd. Rhennir agenda cyfarfodydd bum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

Bydd Pennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad dadansoddiad a gyfeirir ato uchod. Paratoir hyn cyn y cyfarfod a'i rannu yn yr agenda.

#### **5. Hap Samplo Camymddygiad a Chwynion**

##### **Cwynion**

Yn fisol, bydd Swyddogion Polisi SCHTh yn samplo ffeiliau cwynion agored a chaeedig ar hap.

##### **Cylch Gorchwyl Hap Samplo**

- Achosion caeedig - Cynnal adolygiadau misol o gwynion a wneir i Safonau Proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cwynion a materion ymddygiad ymysg materion eraill ynghylch defnydd swyddogion o rym a gwahaniaethu.
- Achosion agored - Dadansoddi'r penderfyniadau cofnodedig er mwyn asesu a oes unrhyw duedd

##### **Camymddwyn**

Bob 6 mis, bydd Swyddogion Polisi SCHTh yn samplo achosion camymddwyn ar hap sydd wedi'u cyfeirio at Gyfarfod Camymddygiad.

##### **Cylch Gorchwyl Hap Samplo**

- Sesiynau caeedig - Er mwyn cynnal adolygiad o honiadau o gamymddygiad sydd wedi'u cyfeirio at Gyfarfod Camymddygiad yn hytrach na Gwrandawriad Camymddygiad. Er mwyn sicrhau nad oes tuedd wrth wneud penderfyniad a bod cysondeb ledled yr Heddlu.

#### **Cynnal Cofnodion**

Mae SCHTh yn cadw cofnodion o'r ffeiliau a ddewisir ar gyfer samplo ar hap, yr ymholiadau a godir gan swyddogion SCHTh ac ymatebion gan yr Heddlu.

## **Proses**

Bydd yr Adran Safonau Proffesiynol yn rhoi rhestr i SCHTh o'r holl ffeiliau a agorwyd mewn mis penodol a set o ffeiliau cyflawn o fewn yr un mis. Bydd SCHTh yn dewis achosion i graffu arnynt. Bydd o leiaf un gŵyn yn fater agored a bydd o leiaf un yn cynnwys honiad o ddefnyddio grym.

## **Cyfathrebu**

Yn dilyn yr adolygiad samplo ar hap, rhoddir sylwadau ar yr achosion i Reolwr Gweinyddu'r Adran Safonau Proffesiynol er mwyn cael adolygiad a sylwadau.

## Atodiad A

### Cyhoeddiad yn unol â Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygiad) 2021

Mae gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth o ran ei ddyletswydd statudol yn unol â thrin cwynion. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol ar eu gwefan:-

- Sut mae'r heddlu'n mesur boddhad cwynwyr
- Symud diweddariadau ymlaen ar weithredu argymhellion perthnasol a wneir gan SAYH a/neu HMICFRS o ran trin cwynion, neu os na dderbyniwyd argymhellion, eglurhad ynghylch pam
- Gosod crynodeb o unrhyw fecanweithiau a roddwyd mewn lle er mwyn nodi a gweithredu ar themâu neu batrymau mewn cwynion
- Sut mae'r heddlu'n mesur boddhad cwynwyr
- Symud diweddariadau ymlaen ar weithredu argymhellion perthnasol a wneir gan SAYH a/neu HMICFRS o ran trin cwynion, neu os na dderbyniwyd argymhellion, eglurhad ynghylch pam
- Crynodeb o systemau mewn lle er mwyn monitro a gwella cyflawniad yn amseroldeb trin cwynion
- Mae'r nifer o gyfathrebu ysgrifenedig a ryddhawyd gan yr heddlu o dan reoliad 13 Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020 lle nad yw ymchwiliad wedi'i gwblhau o fewn "cyfnod perthnasol".
- Mekanweithiau sicrwydd ansawdd mewn lle er mwyn monitro a gwella ansawdd ei ymatebion i gwynion.
- Manylion y trefniadau gweinyddol mae'r CHTh wedi'u rhoi mewn lle er mwyn dwyn y Prif Gwnstabl yn atebol am drin cwynion e.e. amllder cyfarfodydd a chrynodeb o drafodaethau.

Cyhoeddir y wybodaeth hon bob blwyddyn o fewn un mis o gyhoeddi data'r IOPC.

---